Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Datganiad i'r wasg/Press release

New saltmarsh habitat completes Fairbourne flood defence scheme

Natural Resources Wales's £6.8million scheme to protect over 400 properties in Fairbourne, Gwynedd from flooding reaches its final stage this week.

A new area of saltmarsh is being created at Morfa Friog, in line with the planning condition for the flood scheme. This area will mitigate for the natural habitats that will be lost over the coming years due to the construction of the scheme.

An opening will be created in the embankment that currently defends the NRW owned land at Morfa Friog, so that sea water can flow in to create saltmarsh. The area will only flood at very high tide, so people will still be able to access the area outside high tide times.

NRW plans to complete the work within a week, striving to do it in a way that minimizes the impact on local people.

Keith Ivens, Area Flood Risk Manager for NRW said: "This scheme has helped reduce the risk of flooding for the people in Fairbourne. This final piece in the jigsaw means that Morfa Friog will become a new coastal wildlife habitat."

Over the last three years, NRW has strengthened 1.8 miles of the existing coastal flood defences at Fairbourne and Arthog, and rebuilt the Henddol and Morfa outfalls to provide better control of flood water.

A new flood channel has been created for the river Henddol to divert floodwater away from the village.

By carrying out the saltmarsh creation work now, NRW can make sure that it is undertaken safely, in a controlled way, rather than letting nature take its course. On completion, the saltmarsh will be managed by NRW.

Ends

Notes to Editors:

Press office: 029 2046 4227 / pressoffice@naturalresourceswales.gov.uk (24hrs

- Natural Resources Wales is a Welsh Government Sponsored Body. Its purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably maintained, enhanced and used, now and in the future

- For more information www.naturalresourceswales.gov.uk

Cynefin morfa heli newydd yn cwblhau

cynllun amddiffyn rhag llifogydd Y Friog

Yr wythnos hon bydd cynllun £6.8 miliwn Cyfoeth Naturiol Cymru i amddiffyn mwy na 400 o adeiladau rhag llifogydd yn Y Friog, Gwynedd yn cyrraedd ei gam olaf.

Mae llecyn newydd o forfa heli'n cael ei greu ym Morfa Friog, yn unol ag amodau cynllunio'r cynllun llifogydd. Bydd y llecyn hwn yn helpu i wneud yn iawn am y cynefinoedd naturiol a gaiff eu colli yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod wrth i'r cynllun gael ei adeiladu.

Bydd bwlch yn cael ei greu yn yr arglawdd sy'n amddiffyn tir CNC ar hyn o bryd ym Morfa Friog, er mwyn i ddŵr y môr allu llifo i mewn i greu morfa heli. Dim ond adeg llanw uchel iawn fydd y tir dan ddŵr, felly bydd pobol yn gallu parhau i gael mynediad i'r ardal tu allan i oriau llawn uchel.

Bwriad CNC yw cwblhau'r gwaith o fewn wythnos, a bydd yn mynd i'r afael â'r gwaith mewn ffordd fydd yn amharu cyn lleied ag y bo modd ar bobl leol.

Meddai Keith Ivens, Rheolwr Perygl Llifogydd yn CNC: "Mae'r cynllun yma wedi helpu i leihau perygl llifogydd i drigolion Y Friog. Golyga'r darn olaf hwn yn y jig-so y bydd Morfa Friog yn dod yn gynefin arfordirol newydd i fywyd gwyllt."

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae CNC wedi cryfhau 1.8 milltir o'r amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd yn Y Friog ac Arthog, ac wedi ailadeiladu gollyngfeydd Henddol a Morfa er mwyn gallu rheoli'r llifddwr yn well.

Mae sianel llifogydd newydd wedi'i chreu ar gyfer afon Henddol er mwyn ailgyfeirio llifddwr oddi wrth y pentref.

Drwy greu'r morfa rwan, gall CNC sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneud yn ddiogel, yn hytrach na gadael i natur gymryd ei gwrs. Ar ol gorffen y gwaith, bydd y morfa yn cael ei reoli gan CNC.

Diwedd

Nodiadau i olygyddion:

Swyddfa'r wasg: 029 2046 4227 / swyddfarwasg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk *(24awr)*

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ei ddiben yw sicrhau cynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, heddiw ac yn y dyfodol.

- Am fwy o wybodaeth www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk